Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

CANFYDDADAU ALLWEDDOL: PAPUR 3

Gorolwg o fusnesau yn y Gymru wledig

Mae'r arolwg hwn o fusnesau gwledig yn gydran allweddol o raglen waith Arsyllfa Wledig Cymru ar 'economi a chyflogaeth yng nghefn gwlad', ac yn yr adroddiad hwn fe ddadansoddir y data a gafwyd o arolwg o 1,000 o fusnesau yn y Gymru wledig a llunio casgliadau ar sail y data hynny.

Amcan yr arolwg hwn o fusnesau oedd darparu data dibynadwy, a chymharol o bosibl, ynghylch cyflwr y busnesau, eu gweithgareddau, eu potensial i ddatblygu, y rhwystrau a wynebant, a'r math o arferion entrepreneuraidd y maent yn ymgymryd â hwy.

Yn y dyfodol, daw darganfyddion yr ymchwil yn sail i ragor o waith manwl gan yr Arsyllfa, a hwnnw'n waith a fydd yn edrych yn fanylach ar y prosesau, y rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n wynebu busnesau o'r fath yn y Gymru wledig. Bydd hefyd yn hwyluso bwydo gwybodaeth i brosesau Llywodraeth Cynulliad Cymru o lunio'i pholisïau.

Dyma'r darganfyddion allweddol:

Yn ei hanfod, mae'r arolwg hwn o fusnesau gwledig yn darparu set unigryw o ddata sy'n cynnig sylfaen gadarn ar gyfer ymchwilio i gyflwr yr economi gwledig yng Nghymru yn y dyfodol. Er y bydd angen ategu rhagor ar bendantrwydd unrhyw gasgliadau a dynnir o'r set hon o ddata drwy gynnal ail gyfnod o ymchwil, gellir cyflwyno amryw o ddarganfyddion amlwg, sef:

- Uwchlaw popeth, mae darganfyddion yr arolwg yn dangos natur arbennig busnesau yn y Gymru wledig
- Mae'r agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol ar ddatblygiad economaidd a datblygiad busnesau ill dwy'n hynod bwysig ac mae cydberthynas agos rhyngddynt o ran dylanwadu ar strategaeth busnesau
- Mae cryn ddiffyg cyfatebiaeth o ran seilwaith, cymorth a'r farchnad lafur, ac mae angen rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau cynaliadwyedd twf busnesau yn y Gymru wledig
- O weld optimistiaeth yr ymatebwyr busnes a'u potensial i dyfu yn gyffredinol, mae'n hanfodol goresgyn yn gydlynol unrhyw gyfyngiad ar ecsbloetio manteision technoleg, hyfforddiant a datblygu cynhyrchion.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru Aberystwyth 1872 The University of Wales

Medi 2004

Y DARGANFYDDION ALLWEDDOL

Tystiolaeth o berthyn a rhwydweithiau anffurfiol

Dwy thema gydgysylltiedig a oedd yn amlwg yn yr ymatebion i'r arolwg yw'r cysyniadau o 'berthyn' a rhwydweithiau anffurfiol mewn ardaloedd gwledig. I lawer ymatebydd, mae cysylltiad agos rhwng rhinweddau byw a gweithio yn y Gymru wledig a nosiynau o ymddiriedaeth, rhyngweithio wyneb-yn-wyneb ac ymrwymiadau o ran eu ffyrdd o fyw. Er enghraifft, dywedodd 15.7% o'r ymatebwyr nad ydynt erioed wedi ystyried adleoli eu busnes i'r tu allan i'r Gymru wledig oherwydd eu ffyrdd o fyw, eu hymrwymiadau teuluol a/ neu eu teimladau o berthyn. O ran manteision arbennig bod yn y Gymru wledig, rhoes 20.5% o'r ymatebwyr atebion sy'n ymwneud ag 'ansawdd bywyd'/'ansawdd yr amgylchedd', ond cyfeiriodd 16.5% ychwanegol at y manteision sy'n deillio o'r ffaith fod eu busnesau'n rhai lleol. Adlewyrchir cadernid y clymau hynny gan y ffaith i 88.7% o'r perchnogion ddweud eu bod yn byw yn y Gymru wledig ers 10 mlynedd a rhagor. O gofio bod gan gyfanred o 41.5% o'r ymatebwyr rhwng 76% a 100% o'u cwsmeriaid lai na 30km o'u busnes a bod gan 20.8% ohonynt rhwng 76% a 100% o'u cyflenwyr o fewn yr un pellter, mae'r clymau cymdeithasol hyn yn debyg o fod yn gaffaeliad mawr.

Potensial i dyfu/busnesau ffyrdd-o-fyw



Mae'r dystiolaeth a loffwyd o'r arolwg yn cadarnhau bod tyfu yn rhywbeth sy'n digwydd a/neu'n obaith gan y mwyafrif o fusnesau yn y Gymru wledig. Er enghraifft, mae 70.2% o gyfanswm yr ymatebwyr yn cytuno â'r gosodiad yr hoffent 'yn bendant' weld eu busnesau'n tyfu. At hynny, rhagwelai'r mwyafrif o'r ymatebwyr y byddai cynnydd yn eu trosiant blynyddol (68.7%) a'u helw blynyddol (63.9%) dros y 5 mlynedd nesaf (a rhagwelai 48% arall y byddai cynnydd ym maint y farchnad). Ond pan ddaw hi'n fater o'r ffactorau a enwyd fel y rhai a oedd yn bwysig wrth ddylanwadu ar y penderfyniad gwreiddiol i leoli'r busnes yn y Gymru wledig, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at amryw o ddangosyddion meddalach. Y rhai a grybwyllwyd amlaf gan y cyfanred oedd materion dewis ffordd o fyw/ ymrwymiadau teuluol (87.8%), ansawdd yr amgylchedd (84.8%) a/ neu'r ffaith fod yr ymatebydd eisoes yn byw yno (81.3%). O ran maint y busnes, er enghraifft, gwelir perthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes a'r ymatebwyr sy'n rhag-weld cynnydd yn 'nifer y gweithwyr', 'y trosiant blynyddol', 'maint y farchnad' a maint eu tir/ adeiladau (er enghraifft). Yn yr un modd, dangosir perthynas hanfodol negyddol rhwng maint y busnes a'r ymatebwyr busnes sydd 'yn bendant' heb ddim diddordeb mewn ehangu'r busnes. Felly, mae'n werth cydnabod, o ran maint y busnes (a/ neu'r math o fusnes), fod tuedd, i bob golwg, i rai busnesau gael eu rheoli lawn cymaint gan awydd i dyfu'n economaidd â chan faterion dewis ffordd o fyw.

Cryfderau'r Gymru wledig fel lleoliad i fusnes

Mae'r union ffaith nad yw 87.9% o'r ymatebwyr erioed wedi ystyried adleoli eu busnes y tu allan i'r Gymru wledig yn ategu'r ffaith fod amryw o gryfderau'n gysylltiedig â lleoli busnes yno. O ran manteision penodol bod â'u canolfan yno, y ddau gategori o atebion a roddwyd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr yw lefelau da o fasnachu (gwledig) (40.5% o'r ymatebwyr) ac 'ansawdd bywyd'/ 'ansawdd yr amgylchedd' (20.5% o'r ymatebwyr). O ran yr olaf o'r ddau ffactor hynny, mae 84.8% o'r ymatebwyr hefyd wedi dweud i ansawdd yr amgylchedd fod yn bwysig wrth ddylanwadu ar eu penderfyniad gwreiddiol i leoli eu busnes yn y Gymru wledig. Mae'n amlwg, felly, fod potensial i elwa ymhellach ar y cryfderau sy'n gysylltiedig ag economi amgylcheddol. Ond yr hyn sydd hyd yn oed yn fwy o galondid, efallai, yw'r ystadegyn bod 87.8% o'r ymatebwyr o'r farn y bydd eu busnes ar ei ffurf bresennol yn gynaliadwy dros y 5 mlynedd nesaf.

Systemau/polisïau cymorth busnes

Er y ceir rhai amrywiadau o ran maint, math a/ neu leoliad busnes, ni ellir, ar y lefel gyffredinol, ddod i gasgliadau cadarnhaol ynghylch ansawdd y cymorth busnes yn y Gymru wledig, na'r manteisio sydd arno. Caiff effaith y darganfyddiad hwn, fel cyfyngiad posibl ar berfformiad busnes, ei hadlewyrchu yn y ffaith i 7.7% o'r ymatebwyr ddweud mai problem rheoliadau a/ neu ddiffyg cymorth busnes sydd wedi peri iddynt ystyried adleoli eu busnes i'r tu allan i'r Gymru wledig.

Cydnawsedd y sylfaen weithwyr

Mae canlyniadau'r arolwg fel petaent yn dangos ychydig bach o ddiffyg cyfatebiaeth rhwng argaeledd a/ neu addasrwydd gweithwyr sy'n byw yn y wlad a'r swyddi sydd ar gael mewn busnesau gwledig. Dwyseir y gwendid hwnnw ymhellach gan y rhwystrau daearyddol sy'n gysylltiedig â byw yn y Gymru wledig yn ogystal â phroblemau meddalach megis methiannau'r fframwaith cymorth busnes. Er enghraifft, er y caiff cynifer â phum gwaith cymaint o weithwyr (61.8%) eu recriwtio o'r 'Gymru wledig' nag o fannau eraill, ni ddywedodd ond 30.4% o'r ymatebwyr fod gweithwyr cymwys/ medrus o fewn cyrraedd hwylus iddynt - a dywedodd 23.7% fel arall. Yn yr un modd, mae 56.4% wedi cael trafferth recriwtio gweithwyr. Yn achos y mwyafrif o'r ymatebwyr hynny, gellir cyplysu hyn â diffyg ymgeiswyr (62.3%) ac ymgeiswyr sydd heb gael y profiad gwaith priodol (65.7%). Ond mae lleiafrifoedd go fawr hefyd wedi cael problemau am fod 'ymgeiswyr heb yr hyfforddiant academaidd/proffesiynol priodol' (47.7%) a/neu 'ymgeiswyr sydd heb fod yn gyrru/ sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus' (31.5%).

Er bod cyfanred 81.4% o berchnogion busnesau'n ystyried bod lefel sgiliau/ gwybodaeth y rheolwyr a'r gweithlu yn bwysig wrth ddylanwadu ar berfformiad cyffredinol y busnes, mae dros draean o'r busnesau (37.9%) wedi cael trafferth hyfforddi gweithwyr oherwydd 'amser annigonol/ amser a gollwyd yn ystod yr hyfforddi'. Cred cyfran debyg (31.9%) fod 'y gost' yn rhwystr rhag hyfforddi gweithwyr.

Er bod 74.7% o berchnogion busnesau'n dweud eu bod yn cyflogi llai na 10 gweithiwr drwy eu busnes, mae'r ffaith fod 41.5% ohonynt wedi rhagweld y bydd cynnydd yn nifer eu gweithwyr dros y 5 mlynedd nesaf yn awgrymu bod y materion sy'n ymwneud â gwendid yn y sylfaen o weithwyr yn debyg o fod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol agos. Er hynny, mae'n werth nodi bod materion math, maint a lleoliad y busnes yn dylanwadu ar yr union ffigurau ynghylch bodlonrwydd â'r gweithwyr/ recriwtio gweithwyr/ hyfforddi gweithwyr.

Cymhwyso Technoleg

Mae 'technoleg' yn gydran o strategaeth fusnes nad yw'r mwyafrif o berchnogion busnesau wedi elwa'n llawn arni eto. Er enghraifft, dim ond 48.7% o'r ymatebwyr sydd o'r farn fod gallu technolegol yn ddylanwad pwysig ar berfformiad eu busnes (o'i gymharu, er enghraifft, â 64.9% sydd o'r farn fod cyswllt cymdeithasol â chyfeillion, y teulu a chymdeithion busnes yn bwysig, a 20.6% arall yn dadlau nad yw'r ffactor hwnnw hyd yn oed yn berthnasol i'w busnes hwy. Gan ddilyn ymlaen o hynny, 7.6% yn unig o'r ymatebwyr sy'n priodoli 'gwariant mawr' o'u trosiant blynyddol ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Canlyniad i'r dangosyddion hyn, sy'n dangos buddsoddi cyfyngedig mewn TGCh, yw'r nifer isel o berchnogion sy'n defnyddio technoleg i gynyddu trosiant eu busnes. Er hynny, mae'n werth nodi bod materion maint y busnes a'r math o fusnes ill dau yn chwarae rôl o ran cymhwyso technoleg. Er enghraifft, yn achos maint busnes a phwysigrwydd gallu technolegol, mae perthynas hanfodol gadarnhaol fel petai'n bodoli (ystyriwyd, er enghraifft, ei fod yn bwysig gan 35.6% yn unig o ymatebwyr o fusnesau ag 1-4 o weithwyr, ond gan 60.0% o ymatebwyr o fusnesau â 50-99 ac 88.9% o'r rhai â 100 a rhagor o weithwyr). Gellir dweud yr un peth am ddefnyddio'r rhyngrwyd ac e-bost wrth gadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid a chyflenwyr, a/ neu farchnata cynhyrchion. O gofio mai 'busnesau bach' a geir amlaf yn y Gymru wledig, mae'n amlwg felly fod lle o hyd i gynyddu cryn dipyn ar gymhwyso technoleg cyn bod modd barnu ei fod yn nodwedd arbennig o gadarnhaol ar strategaeth busnesau gwledig.

Arloesi/ mentergarwch ymhlith perchnogion busnesau gwledig

Er bod tuedd i ganlyniadau'r arolwg awgrymu bod gan y mwyafrif o berchnogion busnesau sgiliau ym maes arloesi/ mentergarwch, gellir dal i weld rhai anghysonderau yn y cymhwyso beunyddiol ar y priodoleddau hynny. At hynny, mae ffactorau maint y busnes a'r math o fusnes fel petaent yn dylanwadu ar ddangosyddion arloesi/ mentergarwch.

Ond, yn baradocsaidd ddigon, er bod 74.3% o'r ymatebwyr yn dweud bod gwybodaeth yn ddylanwad pwysig ar berfformiad eu busnes, 5% yn unig o'r ymatebwyr sy'n neilltuo 'gwariant mawr' o'u trosiant blynyddol i ymchwil a datblygu. Pan holwyd p'un oedd y gweithgarwch mwyaf arloesol yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, 5.6% yn unig o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oedd 'unrhyw' weithgarwch arloesol wedi'i gynnal. Ond pan ddaeth hi'n fater o gategoreiddio'r gwahanol fathau o weithgareddau arloesol yr ymgymerwyd â hwy, cafwyd bod canfyddiadau'r ymatebwyr unigol o'r hyn a oedd yn cyfrif yn weithgarwch arloesol yn eu hachos arbennig hwy yn amrywio'n fawr (o ran maint y busnes a'r math o fusnes). Eto i gyd, yn achos y mwyafrif, gellid dal i gategoreiddio'r 'gweithgarwch

mwyaf arloesol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf' yn bedair thema, sef cynyddu'r amrywiaeth o gynhyrchion neu eu hansawdd (28.8%), creu gwefan/ marchnata dros y rhyngrwyd a/ neu ddefnyddio rhagor ar gyfrifiaduron yn y gweithle (19.9%), buddsoddi yn y busnes/ yn nhir ac adeiladau'r busnes (16.4%), ac ymchwil a datblygu/ defnyddio offer newydd (9.4%).

Rhwystrau a chyfyngiadau mawr ar fusnesau

Ochr yn ochr â'r manteision a'r cryfderau niferus sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar fusnes – a'i redeg – yn y Gymru wledig, ceir hefyd amrywiaeth mawr o rwystrau a chyfyngiadau y mae angen eu cydnabod.

Mae'r cyfyngiadau posibl sy'n gysylltiedig â pherchnogion y busnesau eu hunain yn cynnwys y darganfyddiad nad oes gan 20.7% o gyfanswm y boblogaeth a arolygwyd yr un cymhwyster academaidd o gwbl. Ond ffaith berthnasol yma yw bod cryn amrywiadau i'w gweld yn lefelau'r cymwysterau sydd gan berchnogion busnesau o wahanol fathau, meintiau a lleoliadau. Er ei bod hi'n amlwg nad yw amrywiadau ymhlith perchnogion busnesau o ran lefelau eu cymwysterau academaidd yn ddiffyg ynddo'i hun, mae'n codi cwestiynau os cysylltir ef â'r lefelau isel iawn o fanteisio ar yr amrywiol ffynonellau o gymorth busnes a gynigir yn y Gymru wledig ac â'r lefelau isel iawn o fodlonrwydd â hwy. Gall y problemau sydd eisoes wedi'u trafod o ran gwendidau yn y sylfaen o weithwyr ddwysáu hynny hefyd.

Yn olaf, dau fater arall sy'n cyfrif am y mwyafrif o wendidau busnesau yw problemau eu hygyrchedd i gwsmeriaid a chyflenwyr/ cysylltiadau cludiant gwael (y cred 36.1% o'r ymatebwyr ei fod yn un o anfanteision bod yn fusnes yn y Gymru wledig) a sylfaen annigonol/ anaddas o gwsmeriaid (y cred 35.6% o'r ymatebwyr ei fod yn un o anfanteision bod yn fusnes yn y Gymru wledig). Felly, er bod 87.8% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu busnes yn gynaliadwy – sef agwedd sydd, mae'n amlwg, yn argoeli'n dda ar gyfer economi'r Gymru wledig – nid yw hynny'n ddigon ynddo'i hun i rwystro'r angen i berchnogion y busnesau unigol adolygu'r sefyllfa'n gyson.

Un o gyfres o adroddiadau a gynhyrchir ar y Gymru wledig gan Arsyllfa Wledig Cymru yw'r adroddiad hwn.

Mae Arsyllfa Wledig Cymru'n gwneud ymchwil annibynnol i'r Gymru wledig ac yn dadansoddi'r sefyllfa ynddi. Fe'i hariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w helpu i lunio polisïau ar sail tystiolaeth.

Mae gweithgareddau'r Arsyllfa'n canolbwyntio ar bedwar prif faes, sef:

- Casglu a dadansoddi data cymdeithasol ac economaidd am y Gymru wledig
- Cyflwyno'r data hynny mewn System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)
- Cynhyrchu cyfres o adroddiadau disgrifiadol a gwerthusol
- Monitro ac adolygu ymchwil a pholisïau eraill sy'n ymwneud â'r Gymru wledig

Gellir cyrchu gwefan, sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am Arsyllfa Cymru Wledig, gan gynnwys ei gweithgareddau a'i chynnyrch, yn www.walesruralobservatory.org.uk

I gael gwybod rhagor am yr ymchwil hon, ffoniwch Alexandra Franklin ar 02920 874970, e-bostiwch: franklina1@cardiff.ac.uk, neu ysgrifennwch at Arsyllfa Wledig Cymru, Adeilad Morgannwg, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, CF10 3WA

Medi 2004